



**TRAFNIDIAETH
CYMRU
TRANSPORT
FOR WALES**

Llawr 5, Tŷ South Gate,
Stryd Wood,
Caerdydd CF10 1EW



5th Floor, South Gate House
Wood Street
Cardiff CF10 1EW



Janet Finch-Saunders AC
Cadeirydd - Y Pwyllgor Deisebau
Cynulliad Cenedlaethol Caerdydd
Bae Caerdydd
CAERDYDD
CF99 1NA

19 Mawrth 2020

Annwyl Janet,

Diolch am eich llythyr diweddar ynghylch y ddeiseb am drafnidiaeth gyhoeddus ym Mlaenau Gwent.

Mewn perthynas â gwasanaethau ar Linell Glyn Ebwy, rydym wedi ymroi i gynyddu gwasanaethau trên a gweithio gyda rhanddeiliaid i adfer y cysylltiad trên rhwng Glynebwy a Chasnewydd. Mae gosod y cysylltiad hwn yn gofyn am welliannau seilwaith er mwyn galluogi mwy o drenau i deithio i'r naill gyfeiriad a'r llall ar y llinell. Bydd sicrhau 2 wasanaeth yr awr ar hyd llinell Glyn Ebwy'n gofyn am welliannau seilwaith a gwaith gosod arwyddion newydd gan Network Rail er mwyn i fwy o drenau redeg yn ôl a blaen ar y llinell. Rydym yn ymgysylltu'n agos â phob parti ynghylch yr agweddau hyn.

Yn unol â chyfarwyddiadau Llywodraeth Cymru, rydym yn cynnal astudiaeth ar hyn o bryd sy'n canolbwyntio ar yr ymrwymadau hyn, sy'n ceisio deall y cyfleoedd a'r rhwystrau i redeg hyd at bedwar trên yr awr ar y llinell hon, a phwy all eu gwireddu. Daeth yr astudiaeth gychwynnol hon i ben yn ddiweddar ac mae wedi'i chyflwyno i Lywodraeth Cymru a'i phartneriaid i'w hadolygu.

Mae'r holl wasanaethau rhwng Glyn Ebwy a Caerdydd Canolog wedi cael trenau wedi'u hadnewyddu gyda gwybodaeth electronig a bydd socedi trydan arnynt erbyn 2020. Bydd Cerbydau DEMU Newydd yn cael eu cyflwyno yn ystod 2022 gyda lle i 425 o bobl. Bydd y trenau newydd sbon hyn hefyd yn cynnwys esgyn a disgyn gwastad, aerdymheru a mwy o le i feiciau.



Mae Trafnidiaeth Cymru yn eiddo i
Lywodraeth Cymru
Transport for Wales is owned by the
Welsh Government

Cwmni Cyfyngedig drwy Warrant. Cofrestrwyd yng Nghymru. Rhif Cwmni 09476013. Cyfeiriad
Swyddfa Gofrestredig: Llawr 5, Tŷ South Gate, Stryd Wood, Caerdydd, CF10 3EW
A Company Limited by Guarantee. Registered in Wales. Company No. 09476013. Registered Office Address: 5th
Floor, South Gate House Wood St, Cardiff, CF10 3EW


Bydd cynnydd mewn capasiti rhwng Glyn Ebwy a Caerdydd Canolog gyda lle i 180 yn fwy o deithwyr ar y trenau i Gaerdydd ar adegau prysur y bore o fis Rhagfyr 2022 ymlaen.

Bydd cynnydd mewn capasiti rhwng Glyn Ebwy a Chasnewydd hefyd, gyda 150 yn fwy o seddi ar y trenau i Gasnewydd ar adegau prysur y bore o fis Rhagfyr 2022 ymlaen, a 300 yn fwy o seddi o Gasnewydd ar yr adegau prysur fin nos o fis Rhagfyr 2022 ymlaen.

Bydd gorsafoedd yn cael eu hadnewyddu a'u glanhau, a bydd Wifi am ddim erbyn mis Rhagfyr 2020 a gwell CCTV erbyn mis Rhagfyr 2022.

Mae Llywodraeth Cymru a TrC wedi bod yn gweithio gyda chydweithwyr ym Mlaenau Gwent i sefydlu peilot gwasanaeth Trafnidiaeth Ymatebol Integredig. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn gweithio gyda grwpiau cymunedol a gweithredwyr trafndiaeth cymunedol a masnachol i asesu sut gallai trafndiaeth sy'n ymateb i alw helpu i fynd i'r afael ag ynysu cymdeithasol a helpu pobl i gyrraedd cyflogaeth yn gost-effeithiol. Er bod gwasanaeth bws da ar hyd llwybrau allweddol yn ystod oriau craidd, gallai gwasanaeth a fyddai'n ymateb i alw helpu i gysylltu pobl mewn ystadau nad ydynt o fewn cyrraedd hawdd i wasanaethau bws, a'r rhai sydd angen trafndiaeth y tu allan i oriau craidd, er enghraifft i weithio ar shift gynnar neu hwyr. Mae'r cyngor wedi cael ymateb gwych gan y gymuned, ac rydym yn gobeithio dechrau ymgynghori ar gynigion ar gyfer gwasanaethau maes o law i'w rhoi ar waith yn fyw tua diwedd 2020.

Yn gywir,



James Price
Prif Weithredwr